

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030
ARCHWILIAD CYHOEDDU

Mater 8 Sesiwn y Gwrandawriad

Dydd Mercher 21 Ebrill 2021

**Mater 8: Yr Amgylchedd Naturiol ac
Adeiledig**

**Polisiau Strategol – Gwerthfawrogi'r Amgylchedd
(Gan gynnwys Isadeiledd a Rhwydweithiau Gwyrdd
STR13)**

Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint

25/03/21

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030) Archwiliad Cyhoeddus

Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 8: Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig (gan gynnwys Rhwydweithiau Gwyrdd ac Isadeiledd STR13)

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawriad yr Arolygwyr

Mater Allweddol: A yw'r polisiâu a'r cynigion ar y mater hwn yn cyflawni amcanion perthnasol y CDLI mewn modd cynaliadwy yn unol â pholisiâu cenedlaethol? A ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Ymateb:

1. Mae Polisi STR13 yn cynnwys ystod eang o elfennau amrywiol, ond yn aml yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, a'i fwriad yw gwarchod, a lle bo'n briodol gwella'r asedau pwysig hyn drwy gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd y polisi'n cyfrannu at gyflawni Amcanion 'Diogelu'r Amgylchedd' o fewn y CDLI;

Amcan 17. Cynnal a gwella rhwydweithiau isadeiledd gwyrdd

Amcan 18. Hyrwyddo dyluniad da sydd yn unigryw yn lleol, yn arloesol ac yn sensitif i'r lleoliad

Amcan 19. Cefnogi diogelu a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol megis dŵr, a hyrwyddo datblygiad tir llwyd

2. Mae meini prawf y polisi hwn yn cefnogi dyheadau thema 'Lleoedd Nodedig a Naturiol' yn PPW11 ac yn cyfrannu at gyflawni nodau lles a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn tanategu polisi STR13, a bydd yn sicrhau ei fod yn cyflawni'r tri amcan uchod mewn modd cynaliadwy sy'n unol â'r polisi cenedlaethol ac sy'n sicrhau bod y datblygiad yn gynaliadwy ac nid yw'n achosi niwed i nodweddion arbennig amgylchedd naturiol ac adeiledig o ansawdd uchel yn Sir y Fflint. Mae'r dystiolaeth allweddol sy'n cefnogi'r polisi'n ymwneud â;

- [Asesiad Rheoli Cynefinoedd](#),
- Papur Cefndir 1 [Rhwystrau Glas 2020](#)
- Papur Cefndir 2, [Asesiad Seilwaith Gwyrdd](#)
- [Asesiad Ynni Adnewyddadwy](#)
- Papur Cefndir 13, [Ynni Adnewyddadwy](#)
- [Asesiad Gofod Agored](#)

3. Mae sail y dystiolaeth yn amlygu pwysigrwydd gwarchod, a lle bo'n briodol, gwella asedau naturiol Sir y Fflint, mae'r dull o weithio ym mholisi STR13 yn unol ag egwyddor sylfaenol PPW11 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sef ceisio creu lleoedd cadarn, sydd yn ei dro, yn ymgorffori'r egwyddor ehangach o greu lleoedd.
4. Mae gwrthwynebwyr wedi codi pryderon nad yw polisi STR13 yn cynnig gwarchodaeth i Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Mae PPW11, paragraff 3.58 a 3.59 yn darparu gwarchodaeth i Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, gan gyfeirio datblygiad tuag at raddau is, serch hynny, mae'n nodi amgylchiadau penodol pan na fyddai datblygiad yn cael ei ganiatáu ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Nid yw'r Cyngor wedi ailadrodd y maen prawf hwn fel rhan o STR13 oherwydd bod PPW11 yn cynnig digon o warchodaeth, ac mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) yn nodi ym mharagraff 3.11 y dylai'r CDLI ganolbwyntio ar, fod yn gryno, ac yn berthnasol i faterion y mae'n bwriadu mynd i'r afael â nhw. Ni ddylai ailadrodd polisi cenedlaethol. Mae'r modd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda chanllawiau Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas Polisi Cynllunio Cymru wrth llunio'r cynllun wedi'i nodi ym mhapur 9, [LDP-EBD-BP9](#) ac fe'i gynhaliwyd gydag Isadran Amaethyddol Llywodraeth Cymru, ac wrth gynnig sylwadau ar y Cynllun i'w Archwilio Gan y Cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r dull a weithredwyd.

Cwestiwn a) A yw geiriad Polisi STR13 yn ddiangen o feichus; a ddylai gynnwys 'lle bo'n briodol'? A yw maen prawf x) yn angenrheidiol, o wybod bod meysydd chwarae a mannau agored yn cael eu cynnwys ym Mholisi EN1?

Ymateb y Cyngor:

- a.1 Mae Polisi STR13 yn nodi lefel uchel o egwyddorion cynaliadwyedd, sy'n ceisio gwarchod a gwella asedau naturiol ac adeiledig Sir y Fflint. Ni fydd pob maen prawf a nodwyd dan bolisi STR13 yn gymwys i bob cais, a bydd yn dibynnu ar fath a lleoliad y datblygiad arfaethedig. Serch hynny, mae'n bwysig amlygu'r materion pwysig hyn i sicrhau bod pob datblygiad wedi'u hystyried yn ddigonol. Bydd y pwysau i'w gymhwyso i bob maen prawf yn cael ei ystyried yn ystod y broses ymgeisio, lle bydd yn glir pa feini prawf sy'n berthnasol i'r cais.
- a.2 Gallai cyflwyno geiriad ychwanegol megis 'lle bo'n briodol' wanhau effeithiolrwydd y polisi a lleihau'r cyfle i gyflawni'r egwyddorion hyn o lefelau uchel ar draws pob datblygiad. Nid yw'r geiriad presennol yn cael ei ystyried yn ddiangen o feichus, oherwydd bod yr egwyddorion mewn perthynas â meini prawf polisi STR13 yn cael eu cefnogi gan PPW11, yn arbennig o fewn y thema 'Lleoedd Nodedig a Naturiol'. Yn ychwanegol at hynny, mae Deddf Cynllunio (Cymru) (205) yn nodi bod rhaid paratoi'r CDLI yn unol â'r egwyddorion cynaliadwy, fel y'u diffiniwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), er mwyn sicrhau bod datblygiad a defnydd tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae geiriad presennol polisi STR13 yn sicrhau bod pob datblygiad yn ystyried pob maen prawf fel rhan o'u cais, a phan fo meini prawf yn arbennig o berthnasol i'w cais, mae'n rhaid iddynt ddangos sut maent yn

cydymffurfio. Mae gweithredu i'r gwrthwyneb a gwneud cydymffurfio'n amodol rhywsut fel y ceisiwyd gan rhai gwrthwynebwyr, yn ymddangos eu bod yn ceisio gwneud darpariaeth datblygu cynaliadwy yn amodol rhywsut, sy'n ymddangos i fod yn wahanol i'r canllawiau cynllunio cenedlaethol.

- a.3 Dan egwyddor sefydledig darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd, mae'n bwysig bod polisi STR13 yn cael ei ddarllen ar y cyd gyda'r Polisiâu Rheoli Datblygiadau dan adran 'Gwerthfawrogi'r Amgylchedd', gan fod 'rhain yn darparu manylion pellach er mwyn asesu ceisiadau a dehongli beth sydd ei angen mewn gwahanol gyd-destunau. Yn gyffredinol, bydd dull STR13, ar y cyd gyda pholisiâu Rheoli Datblygiad 'Gwerthfawrogi'r Amgylchedd' yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at gyflawni'r egwyddorion cynaliadwy a nodwyd o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).
- a.4 Mae maen prawf x STR13 yn cael ei gynnwys ym mholisi EN1, felly nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu tynnu'r maen prawf hwn.